# Rhai o nofelau Elwyn a Watcyn Wyn

**Gan HUW WALTERS**

MAE'N DEBYG fod nifer o ddarllenwyr *Y Casglwr* wedi dod ar draws copïau o nofelau Henry Elwyn Thomas mewn siopau llyfrau ail-law o bryd i'w gilydd, heb wybod dim oll am yr awdur na'i waith. Pwrpas y nodyn hwn yw croniclo peth o hanes Elwyn a bwrw golwg ar rai o'i weithiau.

Ganwyd Henry Elwyn Thomas ym mhentref Llandybie yn 1856 yn fab i William Thomas, glöwr yng nglofa Cae'rbryn, a Mary, merch Dafydd a Marged Evans o blwyf Llanfynydd. Dechreuodd bregethu pan oedd yn ei arddegau cynnar, ac wedi cyfnod o addysg mewn ysgol yn Llandeilo ac yng Ngholeg Richmond, ordeiniwyd ef yn weinidog gyda'r Wesleaid, a bu'n gwasanaethu'r enwad hwnnw yng nghylchdeithiau Llandeilo, Bryn-mawr, Abertawe a Chaerdydd.

Fodd bynnag, troes at yr Annibynwyr yn 1886 a bu'n weinidog ar eglwysi Arundel Square yn Llundain, yng Nghasnewydd, Lerpwl a Richmond. Torrodd ei iechyd yn 1918 a threuliodd gyfnod byr yn yr Aifft ond bu farw yn ei gartref yn Richmond flwyddyn yn ddiweddarach.

Lluniodd Elwyn dair o nofelau — *I Fyny* (Ferndale, 1891), *Cynwyn Rhys, Pregethwr* (Caerdydd, *c.*1900), ac *Ifor Owain* (Wrecsam, 1911), ac ysgrifennodd ddwy nofel ar y cyd â Watcyn Wyn, sef *Irfon Meredydd* (Caerdydd, 1903), a *Nansi, Merch y Pregethwr Dall* (Wrecsam, 1906). Cyhoeddwyd dwy nofel Saesneg o'i waith yn ogystal, sef *Martyrs of Hell's Highway* (Llundain *c.*1904), a *The Forerunner* (Aberafan, 1910), a chyfrol o straeon *Where Eden's Tongue is Spoken Still* (Llundain, *c.*1912).

* * * *

AR WAHÂN i *Ifor Owain*, sef nofel hanesyddol am Gymru yn ystod y Rhyfel Cartref, mae'r gweithiau hyn i gyd yn dilyn yr un patrwm. Serch hynny, mae'n wir dweud ar yr un pryd fod llawer mwy o flas lleol ar y ddwy nofel y bu gan Watcyn Wyn ran yn eu llunio, yn yr ystyr eu bod yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at gymeriadau ac arferion ardal dyffryn Aman.

Pwysleisio delfrydau Ymneilltuaeth Gymraeg diwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon a wneir yn y gweithiau hyn bron yn ddieithriad, a'r prif gymeriadau fel rheol yw'r gweinidog Ymneilltuol, offeiriad y plwyf, sgweiar y plas, a geneth ifanc.

Rhoddir sylw arbennig hefyd i'r tyndra a'r elyniaeth rhwng capelwyr ac eglwyswyr, y gweinidog a'r offeiriad, ac mae'r agwedd hon yn amlwg yn *Cynwyn Rhys, Pregethwr,* sy'n olrhain hanes bywyd y prif gymeriad o'i ieuenctid i'w briodas â merch y sgweiar.

Adlewyrchu tyndra'r cyfnod, brwydr Rhyfel y Degwm a'r bwriad i dorri'r cysylltiad rhwng Eglwys Loegr yng Nghymru a'r wladwriaeth a wneir yn y nofelau. Ceir ynddynt bortread o Eglwys Loegr fel eglwys ormesol yn ddieithriad.

Er enghraifft, wedi i Gynwyn Rhys achub bywyd Olwen Herbert, merch y sgweiar, cais ei thad gael cydsyniad offeiriad y plwyf i Gynwyn ddechrau ei yrfa fel disgybl-athro yn yr ysgol leol. Ond Ysgol Genedlaethol, a noddir gan yr eglwys yw ysgol Llancynwyn, ac ni chaniateir swydd i'r un Ymneilltuwr o fewn ei muriau. Saif Cynwyn yn gadarn dros ei egwyddorion a'i argyhoeddiadau crefyddol, a gwrthyd ymuno â'r eglwys.

Dadlennu twyll y drefn annheg a wneir yn y stori hon, a pherygl traethu plaen fel hyn yw'r demtasiwn i bregethu argyhoeddiadau. A phregethu argyhoeddiadau a wneir dro ar ôl tro yn y nofel hon.

* * * *

MAE'N DEBYG i Elwyn dynnu cryn dipyn ar ei brofiadau ef ei hun wrth ymosod ar yr eglwys a'r offeiriadaeth fel hyn. Addysgwyd ef, fel ei dad, yn Ysgol Genedlaethol Llandybie, ac ymddengys ei fod yn ymwybodol o afael yr eglwys ar y gymdogaeth yn ystod cyfnod ei blentyndod a phlentyndod ei dad.

Dyma a ddywed Elwyn ei hun mewn ysgrif goffa o'i eiddo i'w dad a gyhoeddwyd yn *Yr Eurgrawn Wesleaidd* yn 1915:

> '. . . Efallai nad yw Eglwys Loegr mor gref ei gafael a lluosog ei chymunwyr mewn unrhyw blwyf yng Nghymru ag ydyw yn Llandybie. Golyga hyn fod y capel a'i fynychwyr yn cael edrych i lawr arnynt gan bobl gyfoethocaf a phwysicaf yr ardal. Dyna yr awyrgylch y tyfodd fy nhad i fyny ynddo; a bu gwendid cymharol yr achosion yr oedd ef yn cymdeithasu â hwynt yn foddion i'w wneud yn gryfach amddiffynnydd o'u hawliau nag y buasai mewn ardal lle mae'r capel a'i ddelfrydau ar uwch tir . . .'

Yr un patrwm a welir unwaith yn rhagor yn *Irfon Meredydd,* nofel a luniodd Elwyn ar y cyd â Watcyn Wyn. Mae Irfon, y prif gymeriad, yn ymgorfforiad o'r delfrydau Fictoraidd. Lleolir y nofel mewn cymdeithas lofaol, ac mae gwerthoedd y gymdeithas ddiwydiannol ac Ymneilltuol i'w gweld drwy'r gwaith.

Mae Irfon, fel llanc sy'n perthyn i'r dosbarth gweithiol yn gynrychiolydd teg o'r dosbarth hwnnw yn ei awydd i ddod ymlaen yn y byd ac i ddringo'n gymdeithasol. Mae'n eisteddfodwr pybyr, a'r dwymyn gystadleuol wedi gafael ynddo ers iddo gipio un o'r prif wobrau yng ngŵyl lenyddol Llanmildon.

Caiff lwyddiant hefyd yn ei astudiaethau yn yr ysgol, ac yn y man, fe'i cawn yn fyfyriwr yn Rhydychen, lle daw i gysylltiad â nifer o Gymry ifainc â'u gwaed yn berwi dros wasanaethu Cymru a'r Gymraeg, sy'n ein hatgoffa ar unwaith o'r to disglair o Gymry a fu'n aelodau o Gymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen yn ystod chwarter olaf y ganrif.

* * * *

MAE'R TYNDRA rhwng yr Ymneilltuwyr a'r Eglwyswyr yn amlwg yn y nofel hon yn ogystal. Mae Irfon yn ymserchu yn Elen, merch rheithor plwyf Llanmildon, a chais ganiatâd ei thad i'w phriodi — ond mae yntau'n gwylltio, ac ymedy Elen â'i chartref. Fe'i cyflogir fel ysgrifenyddes gan aelod seneddol Rhyddfrydol yng ngogledd Lloegr, ac yntau'n Ymneilltuwr o argyhoeddiad dwfn. Daw hithau'n gapelwraig selog yn y man.

Yn y cyfamser, mae Irfon a'i gyfeillion yn gwireddu eu delfrydau drwy sefydlu newyddiadur cenedlaethol ac iddo'r teitl *Celtic Tribune;* agorant ysgol ar gyfer newyddiadurwyr a swyddfa i gyhoeddi llyfrau Cymraeg yn y Strand yn Llundain, ac yn fwy diddorol fyth sefydlant yr hyn a elwir yn 'Welsh School of Fiction' i ddarparu llyfrau poblogaidd yn Gymraeg.

Mae'n rhaglen uchelgeisiol, ond ymddengys bod Elen Morgan wedi achub y blaen arnynt, gan iddi, yn ystod ei arhosiad yng ngogledd Lloegr lunio nofel a'i chyhoeddi dan y ffugenw 'Rhedlan Morgan', ac Irfon Meredydd ei hun yn arwr ei stori. Yn y diwedd, mae rheithor Llanmildon yn sylweddoli bod Irfon wedi llwyddo i ddod ymlaen yn y byd, a phriodir Elen ac yntau.

Fel y gellid ei ddisgwyl pwysleisir yn y nofel fod gwobr yn aros y sawl sy'n ymroi i wella'i fyd a'i amgylchiadau, ac mae'r nofel yn cloi gyda'r paragraff dadlennol hwn:

> '. . . *Cyn iddo ef a'r Cyrnol a John Rhys Morgan agor y* Welsh Publishing House *yn y Strand, arferai y Saeson, a rhai cenhedloedd eraill, siarad am lenyddiaeth Cymru fel* relics of barbarism, *ac am ein sefydliadau cenedlaethol fel ffôl-bethau anwybodusion, am ein moesau fel pethau nad oedd mewn bodolaeth, ac am ein hawliau i* front rank *y pulpud, y Senedd, a'r wasg fel* myths. *Y mae gwedd arall ar bethau y dyddiau hyn; y mae pethau yn dechrau troi, a chydnabyddir y rhan bwysig a gymerwyd gan Irfon i ddwyn hyn oddi amgylch gan y ffaith fod y Prif Weinidog wedi gofyn ei gennad i'w gyflwyno i'r Frenhines i'w wneud yn Syr Irfon ar ei ddydd pen blwydd nesaf . . .*'

Mae hon yn hollol nodweddiadol o nofelau Elwyn a Watcyn Wyn, eithr nid digon ganddynt adrodd y ffeithiau fel y'u ceir yn y braslun hwn, oblegid ceir rhyw ddirgelwch mawr ynglŷn â gorffennol Irfon yntau. Ni wyddys dim am ei rieni, ac ymddengys ei fod yn etifedd ffortiwn, ond bonws ychwanegol i gyffroi ychydig ar stori digon araf ei datblygiad yw'r hanesyn hwn.

* * * *

AMCAN y nofelau hyn, yn anad dim arall, oedd ceisio disgrifio bywyd cymdeithasol Cymru ar droad y ganrif — a gwyddys fod hynny'n nod pendant gan y ddau gyd-awdur fel ei gilydd. Ceisient wneud i Gymru yr hyn a wnaeth James Barrie i'r Alban drwy ddisgrifio ei phobl a'u harferion mewn nofelau.

Gwyddys fod Watcyn Wyn wedi ffoli ar nofelau Barrie, ac yn ôl Elwyn cafodd flas arbennig ar weithiau'r Albanwr toc wedi Eisteddfod Genedlaethol 1897 yng Nghasnewydd. Medd yntau mewn ysgrif goffa i Watcyn Wyn yn *Y Genhinen:*

> '. . . *Ar ôl canmol y nofel, a mynd dros y* plot, *ac adrodd un neu ddwy o'r storiau campus, torrodd allan yn sydyn i ddweud: "Mae stwff campus i wneud nofelau yn hanes a bywyd yr Alban ac mae crefydd a chymeriadau'r Albanwyr, yn enwedig eu harferion a'u nodweddion cenedlaethol, yn llawn o'r elfennau dramayddol sydd yn hanfodol i nofelau da. Ond yn fy marn i, mae Cymru yn yr holl bethau hyn, yn anhraethol gyfoethocach na'r Alban na'r Iwerddon gyda'i gilydd"* . . .'

Mae'n demtasiwn gofyn a ddylanwadodd cyfrol yr Albanwr, *Auld Lichts Idylls* (Llundain, 1895) ar nofelau Elwyn a Watcyn Wyn. Portread o gymdeithas gul, gapelgar, cangen o Eglwys Bresbyteraidd yr Alban a geir yng nghyfrol Barrie, cymdeithas yr oedd ennill datgysylltiad oddi wrth yr Eglwys Wladol yn bennaf nod ganddi.

Ac mae un ffaith arwyddocaol arall ynglŷn â dylanwad Barrie, na ellir mewn gwirionedd ond dyfalu yn ei chylch. Sonnir yn *Irfon Meredydd* (t.194), i'r prif gymeriad lunio cyfrol boblogaidd yn darlunio bywyd Cymru, a honno'n dwyn y teitl *Eidiliau*

/ dud. 17